# Y Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad

**SOC(3)-02-08 (p3) : Dydd Mawrth 3 Mehefin 2008**

## Teitl: Ymgynghori ar Reol Sefydlog arfaethedig ar gofnodi achosion o gyflogi aelodau o'r teulu

### Y cefndir

1. Yn ei gyfarfod diwethaf, ystyriodd Comisiwn y Cynulliad oblygiadau adroddiad Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin ynghylch achos lle'r oedd aelod o deulu wedi'i gyflogi, gan ystyried nifer o gamau a allai gael eu cymryd yn y Cynulliad.

2. Un o'r camau a gafodd ei ystyried gan y Comisiwn oedd a allai system gael ei chyflwyno ar gyfer cofrestru neu gofnodi aelodau o'r teulu a fyddai'n cael eu cyflogi gan Aelodau'r Cynulliad. Penderfynodd y Comisiwn mai gofyniad newydd, a gâi ei sefydlu o dan Reol Sefydlog newydd (yn debyg i'r gofyniad i Gofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 32), oedd yn ymddangos fel y ffordd orau, gan ei bod yn cyfuno tryloywder a thegwch.

3. O dan Reol Sefydlog 16.1(iii), mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad archwylio'r trefniadau ar gyfer llunio a chynnal y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau a'r Cofnod o Aelodaeth Cymdeithasu a'r cyfle i weld y Gofrestr honno, a ffurf a chynnwys y Gofrestr a'r Cofnod, a rhagwelir y byddai'r gofyniad newydd hefyd yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor.

4. Er mwyn sicrhau y byddai Cofnod o'r fath yn bodloni hol anghenion y Cynulliad, roedd y Comisiwn yn teimlo y dylent ofyn barn y Pwyllgor Safonau wrth ddatblygu cynigion ffurfiol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes ac yn y pen draw i'r Cynulliad.

### Y manylion

5. Roedd y Comisiwn yn teimlo y byddai gofyniad newydd o'r fath yn rhoi cofnod clir a thryloyw o'r holl aelodau teulu a fyddai'n cael eu cyflogi gan Aelodau'r Cynulliad ac y byddai ar gael yn hwylus i'r cyhoedd. Drwy gyflwyno cofnod ar wahân, ni fyddai sancsiynau troseddol yn sgil unrhyw fethiant i gydymffurfio, ond drwy ymgorffori hyn yn Rheol Sefydlog 16.1(i), byddai methiant o'r fath yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau ac felly yn caniatáu i gamau gael eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri'r rheol. Oherwydd hyn, byddai angen mân newidiadau yn Rheolau Sefydlog 16 a 33 er mwyn dod â'r cofnod newydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

6.O ran cyflawnder, mae'n bosibl hefyd y bydd y Pwyllgor am ystyried dod â'r cofnod newydd o fewn Cod Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad. Byddai hynny'n amlygu'r holl ofynion ynghylch cofrestru o fewn un ddogfen gyffredinol.

7. Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi cynhyrchu Canllawiau ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Aelodau er mwyn bodloni'r rhwymedigaeth sy'n cael ei disgrifio o dan Reol Sefydlog 16.1(iii). Dylai unrhyw newid yn y gofrestr neu'r cofnodion, drwy gyflwyno'r Rheol Sefydlog newydd, gael ei adlewyrchu mewn canllawiau diwygiedig. Bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y Canllawiau diwygiedig, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau eraill a fydd yn cael eu nodi.

8. Mae'r Rheol Sefydlog newydd drafft ar gael yn **Atodiad A**.

### Argymhellion

9. Gwahoddir y Pwyllgor:

a) i ystyried y Rheol Sefydlog arfaethedig fel y mae wedi'i chynnwys yn Atodiad A;

b) i gytuno ar unrhyw sylwadau yr hoffai'r Pwyllgor eu cyflwyno yng ngoleuni'r cynnig y dylai'r Rheolau Sefydlog gael eu newid; ac

c) i gytuno i wneud unrhyw waith diweddaru y bydd ei angen yn y canllawiau ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau'r Aelodau, a'r Cod Ymddygiad o ganlyniad i Reol Sefydlog newydd.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2008**

# Atodiad A

## Rheol Sefydlog XX - Cofnodi Achosion o Gyflogi Aelodau o'r Teulu

[Sylwch: nid yw cofnodi achos o gyflogi partner neu blant dibynnol i Aelod o dan y Rheol Sefydlog hon yn gyfystyr â chofrestru o dan Reol Sefydlog 31, sy'n ofyniad cyfreithiol ac sy'n gorfod cael ei wneud gan yr Aelod ar wahân.]

XX.1 Rhaid i hysbysiad gael ei roi gan unrhyw Aelod ei fod yn cyflogi unrhyw un o aelodau ei deulu.

XX.2 Mae'r manylion sydd i'w cofnodi fel a ganlyn:

(i) Enw'r Aelod;

(ii) Enw'r Cyflogai;

(iii) Perthynas:

(a) Partner neu gyn Bartner;

(b) Plentyn (gan gynnwys llysblentyn, plentyn maeth, plentyn wedi'i fabwysiadu neu blentyn yng nghyfraith);
(c) Ŵyr neu wyres (gan gynnwys llys-ŵyr neu lyswyres, ŵyr maeth neu wyres faeth, ŵyr wedi'i fabwysiadu neu wyres wedi'i mabwysiadu, ŵyr neu wyres yng nghyfraith);
(ch) Brawd neu chwaer (gan gynnwys llysfrawd neu lyschwaer, brawd maeth neu chwaer faeth, brawd wedi'i fabwysiadu neu chwaer wedi'i mabwysiadu);
(d) Rhiant (gan gynnwys llysriant, rhiant maeth, rhiant wedi'i fabwysiadu neu riant yng nghyfraith);
(dd) Taid neu nain (gan gynnwys llys-daid neu lys-nain, taid maeth neu nain faeth, taid wedi'i fabwysiadu neu nain wedi'i mabwysiadu, taid neu nain yng nghyfraith); ac
(e) Ewyrth/Modryb/Cefnder/Cyfnither (gan gynnwys llysewyrth, llysfodryb, llysgefnder, llysgyfnither, ewyrth maeth, modryb faeth, cefnder maeth, cyfnither faeth, ewyrth mabwysiadol, modryb fabwysiadol, cefnder mabwysiadol, cyfnither fabwysiadol);

(iv) Dyddiad dechrau'r gyflogaeth;

(v) Dyddiad diwedd y gyflogaeth;

(vi) Oriau contract a weithir bob wythnos;

(vii) Teitl y swydd; a

(viii) Band AMSS/trefniant cyflog.

XX.3 At ddibenion Rheol Sefydlog XX.2(iii) ystyr partner Aelod yw priod, partner sifil neu un o gwpl p'un ai o'r un rhyw ynteu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod.

XX.4 Rhaid i'r Llywydd gadw a chyhoeddi cofnod o hysbysiadau'r Aelodau ynglŷn â'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog XX.2 a rhaid trefnu bod copïau ar gael i'w harchwilio gan yr Aelodau a'r cyhoedd..

XX.5 Rhaid i'r hysbysiadau gael eu gwneud drwy lenwi ffurflen a ragnodir gan y Llywydd.

XX.6 Cyn pen wyth wythnos ar ôl i Aelod dyngu'r llw teyrngarwch neu roi'r cadarnhad cyfatebol, rhaid iddo lenwi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd a llofnodi'r ffurflen a'i chyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno.

XX.7 Cyn pen pedair wythnos ar ôl i gyflogaeth neu newid cyflogaeth ddigwydd, rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd drwy lenwi'r ffurflen ragnodedig a llofnodi'r ffurflen a'i chyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno.

XX.8 Rhaid peidio â barnu bod y ffurflen y cyfeirir ati yn Rheolau Sefydlog

XX.6 neu XX.7 wedi'i chyflwyno nes ei bod wedi dod i law yn y Swyddfa Gyflwyno.

XX.9 Mae'r Aelodau o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau bod y cofnod o hysbysiadau yn cynnwys y manylion cywir a hysbyswyd ganddynt o dan Reolau Sefydlog XX.6 neu XX.7, a hynny drwy ei archwilio o dro i dro.